# CYLCHLYTHYR CHTh

## Rhagfyr 2025

Law yn llaw at Dde Cymru Diogel, Cyfiawn a Chynhwysol.



**Emma Wools ydw i, eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, a dyma fy Nhylchlythyr cyntaf fel Comisiynydd.**

Pan wnaethoch fy ethol fel eich Comisiynydd, mi wnes i ymrwymiad i wasanaethu pob un o'n cymunedau a gweithio i greu De Cymru Diogel, Cyfiawn a Chynhwysol. Rwyf yn ymrwymedig i gyflawni'r weledigaeth honno, a byddaf yn gweithio bob un dydd i ennill eich ymddiriedaeth, i wrando ac i weithredu.

Mae'r cylchlythyr hwn yn gyfle i chi glywed am fy ngwaith, lle rwyf wedi bod, pwy rwyf wedi cyfarfod â nhw, ac i ddangos sut rwyf yn cyflawni eich blaenoriaethau. Mae hefyd yn gyfle i chi gysylltu a rhannu eich barn a'ch safbwyntiau am sut y gallwn gyflawni'r weledigaeth o ardal ddiogel, gyfiawn a chynhwysol gyda'n gilydd. Gobeithio y bydd yn rhoi gwybodaeth i chi ac y bydd yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol!



## Fy Ngweledigaeth ar gyfer De Cymru

Mae fy Nghynllun, a gafodd ei lywio gan leisiau a mewnbwn y cyhoedd, yn nodi'n fanwl sut y byddaf yn cyflawni fy ymrwymiadau i bobl De Cymru.

Rwyf wedi nodi isod y 5 Blaenoriaeth yn y cynllun sy'n canolbwyntio ar gyflawni, gan roi enghreifftiau clir o beth yw'r problemau, sut rydym yn gweithio i'w datrys, a pha bartneriaid y byddwn yn gweithio gyda nhw.

Mae manylion llawn fy Nghynllun i'w gweld yma

BLAENORIAETH 1

### Plismona Gweladwy, Cysylltiedig ac Ymatebol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

Ennyn ymddiriedaeth pobl mewn plismona lleol drwy sicrhau bod plismona ledled De Cymru yn parhau i fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ymwybodol o anghenion pob cymuned.

BLAENORIAETH 2

### Atal Troseddu a Lleihau Trais

Cydweithio a thargedu buddsoddiad i ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau niwed, troseddu a thrais, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

BLAENORIAETH 3

### Diogelu Pobl a Chymunedau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys Ar-lein

Cadw pobl a chymunedau sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag achosion o gamfanteisio a niwed.

BLAENORIAETH 4

### Sicrhau Cyfiawnder i Ddioddefwyr a Lleihau Aildroseddu

Gyda phartneriaid cyflawni'r blaenoriaethau a rennir gennym er mwyn cryfhau cymorth i ddioddefwyr, gwella canlyniadau cyfiawnder i bawb a lleihau aildroseddu.

BLAENORIAETH 5

### Plismona sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol


Meithrin hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru drwy sicrhau safonau uchel, plismona moesegol a heddlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

## Darparu Plismona yn y Gymdogaeth

Diolch i'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth newydd, mae gan bob cymdogaeth yn Ne Cymru bellach swyddog penodol y gellir cysylltu ag ef. Ers mis Medi, rydym hefyd wedi cyflwyno 70 o Swyddogion y Gymdogaeth ychwanegol ar draws yr heddlu, sy'n canolbwyntio ar blismona yn y gymdogaeth.

- Mae hynny'n golygu eich bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw pan fydd rhywbeth o'i le, sy'n cyflawni fy ymrwymiad o greu heddlu gweladwy, hygyrch ac ymatebol.
- Yn ystod yr haf, gwnaethom gynyddu patrolau yn sylweddol fel rhan o'n "Menter Strydoedd Mwy Diogel yr Haf". Gyda chymorth gan Gronfa Hotspot Action gwerth £1.4m, llwyddwyd i gynyddu ein presenoldeb mewn trefi, parciau ac ar draethau, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus.
- O ganlyniad i effaith gadarnhaol ein Menter yr Haf, ar 1 Rhagfyr gwnaethom lansio'r Gaeaf o Weithredu, sy'n canolbwyntio ar gynyddu gweithgarwch plismona a phartneriaeth mewn ardaloedd allweddol mewn trefi a dinasoedd yn Ne Cymru.

Nid dim ond mater o ymateb i droseddau yw plismona yn y gymdogaeth. Mae hefyd yn golygu bod yn rhan o'ch cymuned, gan weithio gyda phobl, grwpiau, busnesau, ysgolion a phartneriaid lleol i ddeall yr hyn sydd bwysicaf, a datrys problemau cyn iddynt waethygu.











## 'Yn Eich Cymuned' ledled De Cymru

PRIORITY 1

Yn unol â fy ymrwymiad i greu cymunedau mwy gweladwy a chysylltiedig, rwyf wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl leol a grwpiau cymunedol ledled ein rhanbarth. Rwyf i a fy nhîm wedi datblygu fy ymweliadau 'Yn Eich Cymuned', sy'n rhoi cyfle i mi glywed yn bersonol am y problemau y mae cymunedau, busnesau ac elusennau ledled ein rhanbarth yn eu hwynebu.








Mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth, gan fy helpu i ddeall sut y gallaf fi, fel eich Comisiynydd, helpu i'ch cefnogi a chyflawni ar eich rhan. Os oes gennych chi neu'ch sefydliad grŵp neu brosiect cymunedol yr hoffech i mi ymweld ag ef, cysylltwch â fi!

# Newyddion gan SCHTh




### Y Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc

Ym mis Medi, gwnaethom lansio'r Cynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc, y cynllun cyntaf o'i fath yn Ne Cymru. Cafodd ei lywio gan adborth a lleisiau dros 5000 o blant a phobl ifanc, gan nodi chwe blaenoriaeth glir i sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu clywed a'u parchu yn eu cymunedau.

Rwyf yn ymrwymedig i sicrhau bod eu lleisiau yn helpu i lywio penderfyniadau plismona a diogelwch cymunedol.

I ddarllen y cynllun llawn, cliciwch yma



### Y Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd

**Cyhoeddwyd Mitch Theaker fel Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru.**

Mae Mitch yn gyn Gynghorydd Arbennig i Lywodraeth Cymru, yn Aelod o Gabinet Cyngor Abertawe ac yn ddiplomydd. Bydd Mitch yn cefnogi gwaith y Comisiynydd gan helpu i gyflawni'r De Cymru ddiogel, gyfiawn a chynhwysol y mae pawb am ei gweld!



### Edrych yn ôl ar Fenter Strydoedd Mwy Diogel yr Haf

Yn ôl ym mis Mehefin, gwnaethom lansio Menter Strydoedd Mwy Diogel yr Haf – sef menter atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol trefi ledled De Cymru dros fisoedd yr haf.

Rhwng mis Mehefin a mis Medi, gwnaethom ymweld â mannau problemus a chanol trefi ledled De Cymru i gwrdd â phartneriaid, siarad â thrigolion a busnesau a meithrin dealltwriaeth o effaith y fenter hon ar gymunedau lleol.





